# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(13 ) v8

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Yng ngoleuni'r datblygiadau diweddaraf, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch lles y rhai sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhedeg gan Southern Cross. EAQ(4)0019(HSS)

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Cynnig i gymeradwyo cyllideb atodol (15 munud)

**NDM4748 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30 , yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 , a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 21 Mehefin 2011.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth

Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb floc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb floc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng amcangyfrif y symiau sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau: nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**
Cyllideb Atodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Craffu ar y Cynnig ynghylch Cyllideb Atodol 2011-2012 (Haf 2011)

Papur gan Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwil: Cyllideb Atodol 2011-12

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gyda phleidlais ar wahân (15 munud)**

**4. Gorchymyn (Diwygio) Gorchymyn Eithrio Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Cymru) 2011**

**NDM4781 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2011.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru) 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*

**5. Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011**

**NDM4782 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Rheoliadau Cynllun Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 (Diwygio) (Cymru) 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2011 (15 munud)**

**NDM4783 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) Diwygio 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2011.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) Diwygio 2011
Memorandwm Esboniadol – *Ar gael yn Saesneg yn unig*
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad

**Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog**
**NDM4790 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Reol Sefydlog 12.20 (i) er mwyn caniatáu i NNDM4785 gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 12 Gorffennaf 2011.

**7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth (15 munud)**
**NNDM4785 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau pellach hynny y daethpwyd â hwy gerbron yn y Bil Lleoliaeth sy'n ymwneud â Chynlluniau Adneuon Tenantiaeth a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynigion NNDM4642 a NNDM4722.

Cafodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
*Gellir gweld copi o'r Mesur Seneddol Lleoliaeth drwy ddilyn y linc:*
*http://services.parliament.uk/bills/2010-11/localism.html*

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad

**8. Dadl ar gam-drin domestig (60 munud)**

**NDM4784 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel; ac

2. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella diogelwch unigolion a'u teuluoedd sy'n destun cam-drin domestig ac i roi cefnogaeth iddynt.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymhellach:

a) Rôl ac arbenigedd mudiadau'r Trydydd Sector o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, yn ogystal â darparu cymorth i ddioddefwyr a phlant;

b) Yr angen i ymgysylltu â mudiadau'r Trydydd Sector yn llawn wrth fesur y cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i sicrhau bod dioddefwyr trais

domestig yn parhau i gael mynediad at gyfiawnder.

**Dogfen Ategol**
*Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel:*
http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/publications/besafe/?skip=1&lang=cy

**9. Datganiad gan y Prif Weinidog: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-16 (90 munud)**

**Cyfnod pleidleisio**

**10. Dadl Fer (30 miunud)**

**NDM4780 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Llyfr Blegywryd newydd? Adfer Awdurod Cyfreithiol i Gymru.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011**